Astudiaethau achos gwrth-hiliol: Manjula: stereoteipiau hiliol am boen yn ystod esgor

Last Updated: 23/11/2026

Manjula: stereoteipiau hiliol am boen yn ystod esgor

Setting: Gofal mamolaeth: brysbennu mewn ward esgor.

Cyd-destun

Mae Manjula yn fenyw o Dde Asia sy'n cael ei babi cyntaf. Mae hi'n ffonio'r ward esgor i ddweud ei bod mewn llawer o boen ac yna'n cyrraedd gyda'i mam a'i mam-yng-nghyfraith yn ei chefnogi ar y naill ochr a'r llall wrth iddi gerdded yn araf tuag at y dderbynfa.

Beth ddigwyddodd

Wrth i Manjula nesáu at y derbynnydd, mae'n cael cyfangiad, mae'n sgrechian mewn poen ac yn dweud ei bod yn teimlo y gallai hi lewygu. Mae'r tîm yn rhuthro allan gyda chadair olwyn ac yn mynd â hi i ystafell frysbennu. Ar ôl archwiliad, canfyddir bod Manjula wedi ymledu 2cm.Mae arsylwi pellach yn dangos cyfangiadau tua deg munud ar wahân.

Wrth i'r fydwraig gerdded allan o'r ystafell, mae hi'n dweud wrth gydweithwyr: "Dim ond tywysoges arall." Nid yw'r tîm yn ymwybodol bod un o'r menywod hŷn yn feddyg teulu ac yn deall y stereoteip hiliol y tu ôl i'r sylw.

Y diwrnod canlynol, mae'r teulu'n cwyno am sylw'r fydwraig. Nid yw'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth sy'n derbyn y gŵyn yn deall beth mae'r ymadrodd yn ei olygu i ddechrau. Ar ôl cyfarfod â'r teulu, mae'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth yn ymddiheuro ar ran y tîm ac yn blaenoriaethu gwrth-hilioldeb o fewn hyfforddiant gorfodol yn y dyfodol.

Effaith

Mae Manjula a'i theulu yn profi'r sylw fel un diystyriol, stereoteipio a hiliol.

Mae'n tanseilio ymddiriedaeth ar adeg fregus pan yw Manjula mewn poen ac yn ceisio gofal.

Mae'r digwyddiad hefyd yn datgelu bwlch yn nealltwriaeth staff ac arweinyddiaeth o droellau ymadrodd hiliol am boen, ymddygiad a benyweidd-dra.

Sut y dylai arfer gwrth-hiliol edrych

Rhaid asesu poen a gofid yn unigol ac yn barchus. Ni ddylai staff ddefnyddio stereoteipiau hiliol, rhyweddol na diwylliannol i ddehongli sut mae menyw yn mynegi poen. Dylai arweinwyr ddeall troellau ymadrodd hiliol a sicrhau bod cwynion yn arwain at ddysgu, atebolrwydd a newid diwylliant, nid ymddiheuriad yn unig.

Pwyntiau dysgu allweddol

- Deall bod ymddygiad gwrth-hiliol yn hanfodol ar gyfer gofal caredig, tosturiol a diogel
- Dylid trin menywod fel unigolion ac nid fel stereoteipiau yn y ffordd y maent yn profi neu'n mynegi poen
- Gall sylwadau achlysurol ddatgelu rhagdybiaethau niweidiol a chreu diffyg ymddiriedaeth
- Rhaid nodi, herio a dileu troellau ymadrodd hiliol o ddiwylliant y gweithle
- Dylai pobl sy'n gwylio herio sylwadau gwahaniaethol pan ydynt yn eu clywed
- Dylid trin cwynion gyda didwylledd, chwilfrydedd ac atebolrwydd
- Dylai hyfforddiant fod ynghyd â myfyrio, goruchwylio a gweithredu gan arweinwyr
- Mae asesu poen parchus yn fater o degwch a diogelwch.